OCR
RECOGNISING ACHIEVEMENT

Chief Examiner's Report

Prosesu Geiriau Lefel 2 (03948)
Summer 2011

All candidates managed to complete the examination paper. The standard was good with evidence of candidates having proofread their work carefully. Keying-in errors were penalised mainly.

Document 1

This document was completed well on the whole. Nearly all candidates managed to change the left and top margins correctly and to use full justification. Candidates should ensure that the top margin is correct on subsequent pages – if they are not, this will be penalised (4T). All candidates managed to move the text according to the instructions but some candidates copied the paragraph instead of the sentence as instructed (3.5). All candidates managed to indent the paragraph and all candidates changed to single line spacing when instructed. Not all candidates managed to place the footer at the right margin (2.3) or to include it on the first page (2.3). All candidates followed the correction sign for starting a new paragraph (3.3). All candidates managed to number the pages according to the instruction (2.3) and to complete the search and replace successfully (2.3). Keying in errors were also penalised in this document.

Document 2

This document was completed very well. All candidates managed to centre the heading (4F) and to sort the list into alphabetical order. All candidates managed to insert the picture but some did not re-size it according to the instructions (2.3). The font size was changed and the underlining carried out correctly. All candidates managed to print a copy on A4 landscape (4H). Keying in errors were mainly penalised in this document. Nearly all candidates managed to complete the word count correctly at the end of the document (2.3).

Document 3

All candidates managed to modify the layout of the table according to the instructions given. All candidates used the correct font and all candidates managed to leave the correct vertical space. Some candidates were penalised for not typing the column headings exactly as they appeared on the exam paper (2.3). All candidates also managed to merge cells so that the headings for the sections extended over more than one column. All candidates did switch off the gridlines around the table and most managed to sort correctly (3.4). Candidates aligned the decimal points (4Q) and a few candidates failed to align the text and figures to the left of the columns (4P). Again, keying in errors were mainly penalised.

Document 4

This document was completed very well. Penalties were mostly awarded for keying in errors but some candidates did not number the second page of the document (2.3). Some candidates failed to use the same font consistently throughout the document but all candidates produced the extra copies and used the correct template. All candidates were consistent when keying in and presenting the bullet points. However, not all candidates used full justification throughout the document as instructed (4S). Candidates need to take care when keying in words that include the hyphen, eg, ail-gynllunio, ail-osod. Some candidates were penalised for allowing a space each side of the hyphen and keying in 'ail – gynllunio', 'ail – osod'.

Llwyddodd pob ymgeisydd i gwblhau'r papur arholiad. Roedd y safon yn dda gydag ôl ymgeiswyr yn prawf-ddarllen eu gwaith yn ofalus. Cosbwyd yn bennaf am wallau teipio.

Dogfen 1

Cwblhawyd y ddogfen hon yn dda ar y cyfan. Llwyddodd bron pob ymgeisydd i newid yr ymyl chwith a'r ymyl uchaf yn gywir ac i ddefnyddio unioni llawn. Dylai ymgeiswyr sicrhau bod yr ymyl uchaf yn gyson ar y tudalennau parhad bob amser – os nad yw'n gywir, fe gosbir hyn (4T). Llwyddodd pawb i symud testun yn ôl y cyfarwyddyd ond fe wnaeth ambell ymgeisydd gopïo paragraff yn lle brawddeg fel a nodwyd (3.5). Llwyddodd pawb i fewnleoli'r paragraff ac fe lwyddodd pawb i newid i ofod sengl pan oedd angen gwneud hynny. Fodd bynnag, ni lwyddodd ambell ymgeisydd i roi'r troedyn ar y dde (2.3) na chwaith i'w gynnwys ar y dudalen gyntaf (2.3). Llwyddodd pob ymgeisydd i gychwyn paragraff newydd yn ôl yr arwydd cywiro (2.3). Llwyddodd pob ymgeisydd i rifo'r tudalennau yn ôl y cyfarwyddyd (2.3) ac i newid un gair am un arall trwy gydol y ddogfen (2.3). Cosbwyd yn bennaf am wallau teipio yn y ddogfen hon.

Dogfen 2

Cwblhawyd y ddogfen hon yn arbennig o dda. Llwyddodd pawb i ganoli'r pennawd (4F) ac fe lwyddodd pawb i ad-drefnu'r rhestr yn nhrefn y wyddor. Bu pawb yn llwyddiannus wrth fewnosod y llun ond methodd ambell un â newid ei faint yn ôl y gofyn (2.3). Newidiwyd maint y ffont a thanlinellwyd yn gywir. Llwyddodd pob ymgeisydd i argraffu un copi tirlun (4H). Cosbwyd gwallau teipio yn bennaf yn y ddogfen hon felly. Hefyd, fe lwyddodd bron pawb i gynnwys nifer y geiriau yn gywir ar ddiwedd y ddogfen (2.3).

Dogfen 3

Fe wnaeth pob ymgeisydd newid y drefn yn y tabl yn ôl y gofyn. Defnyddiodd pawb y ffont gywir a gadawyd gofod fertigol yn gywir bob tro. Ni lwyddodd pob ymgeisydd i deipio penawdau'r colofnau yn union fel ag yr oeddent yn ymddangos yn y papur arholiad (2.3). Llwyddodd pob ymgeisydd i gyfuno'r celloedd hefyd fel bod penawdau'r adrannau yn ymestyn dros ddwy golofn. Llwyddodd pob ymgeisydd i ddiffodd y llinellau o gwmpas y tabl a llwyddodd bron pawb i ad-drefnu yn gywir (3.4). Llwyddwyd i alinio'r pwyntiau degol (4Q) ond methodd ambell ymgeisydd alinio testun a rhifau i'r chwith yn y colofnau (4P). Eto, cosbwyd yn bennaf am wallau teipio.

Dogfen 4

Cwblhawyd y ddogfen hon yn dda iawn. Cosbwyd yn bennaf am wallau teipio ond ni lwyddodd pob ymgeisydd fodd bynnag i rifo ail dudalen y ddogfen (2.3). Methodd ambell un â defnyddio'r ffont gywir yn gyson ond llwyddodd pawb i gynhyrchu'r copïau ychwanegol gan ddefnyddio'r templad cywir. Roedd yr ymgeiswyr yn gyson wrth deipio a chyflwyno'r pwyntiau bwled. Fodd bynnag, ni wnaeth pob ymgeisydd ddefnyddio unioni llawn yn ôl y cyfarwyddyd (4S). Mae angen cymryd gofal wrth deipio geiriau sy'n cynnwys y cyplysnod, ee, ail-gynllunio, ail-osod. Cosbwyd rhai ymgeiswyr am adael gofod bob ochr i'r cyplysnod ac felly am deipio 'ail – gynllunio', 'ail – osod'.